




Sibrwd, Theatr Genedlaethol Cymru (llun: Simon Gough Photography)



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Pecyn Cymorth i Ddatblygu Dwyieithrwydd yn y Celfyddydau



Cynnwys

Pam Dwyieithrwydd?	3
Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth Hwn	7
Cyd-Destun Deddfwriaethol ar gyfer Iaith yng Nghymru Heddiw	9
Camau Tuag at Weithio'n Ddwyieithog	14
Datblygu Polisi'r Gymraeg	15
Archwiliad o'r Defnydd Presennol o Iaith	16
Canllawiau	22
Adran 1: Pobl	22
Adran 2: Cyfathrebu	24
Adran 3: Trefniadau Mewnol A Gweinyddiaeth	30
Datblygu Polisi'r Gymraeg Syml	24
Creu Diwylliant Dwyieithog mewn Digwyddiadau a Pherfformiadau	27
Yr Archwiliad Olaf	28
Dolenni i Adnoddau Ac Asiantaethau Cymorth	33



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal.

Pam Dwyieithrwydd?

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog, ac os ydych yn byw yng Nghymru, waeth ble y cawsoch eich geni, waeth beth yw eich ethnigrwydd neu'ch diwylliant, rydych yn rhan o'r diwylliant dwyieithog hwnnw. Mae dwyieithrwydd yn agwedd naturiol ac amlwg ar fywyd yng Nghymru, mae'n rhan o'r hyn sy'n gwneud ein cenedl a'n diwylliant yn nodedig a diddorol.

Mae'r Gymraeg wedi cael statws iaith swyddogol yma ochr yn ochr â Saesneg ers mis Chwefror 2011, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu Cymru wirioneddol ddwyieithog, ac i sicrhau bod gan y bobl sy'n byw yng Nghymru y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwmo i gefnogi'r weledigaeth honno.

Un genedl yw Cymru. Mae ein cerddoriaeth, ein llenyddiaeth, ein dawns a'n diwylliant celfyddydol gain yn nodweddiadol Gymreig, p'un a gaiff ei fynegi drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg. Caiff y gelfyddyd a grëir yng Nghymru ei hysbrydoli neu ei llywio mewn rhyw ffordd gan brofiad ein hartistiaid o fyw yng Nghymru, o fod yn rhan o'r pair diwylliannol hwn; nid dwy Gymru wahanol ond un genedl sy'n mynegi ei hun drwy ddwy iaith swyddogol, er bod ganddynt eu hanes a'u cyfeirbwyntiau penodol eu hunain.

Dyma rai pethau sy'n werth eu hystyried:

Mae gan siaradwyr Cymraeg ragduedd at y celfyddydau.

Mae un o bob tri pherson yng Nghymru yn dweud ei fod yn gallu naill ai deall, siarad neu ysgrifennu'r Gymraeg. Amrywia'r gyfran o 50% yng Ngogledd Cymru, i 43% yn y Canolbarth a'r Gorllewin a 18% yn Ne Cymru. Dywed dwy ran o dair o'r rhain fod ganddynt ddi-ddordeb yn y celfyddydau a diwylliant, o'u cymharu

ag ychydig dros hanner y rhai heb unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg.

Mae marchnata'n ddwyieithog yn rhoi mynediad at gynulleidfa ifanc, addysgedig, diwylliannol lythrennog sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Mae'r bobl sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn iau na'r rhai sydd heb sgiliau o'r fath, ac mae cyfran uwch ohonynt yn perthyn i'r dosbarthiadau ABC1 nad ydynt yn waith llaw. Yn gyffredinol maent yn addysgedig ac yn debygol o fod â pheth incwm i'w wario ar weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.

Mae siaradwyr Cymraeg yn fynychwyr brwd digwyddiadau celfyddydol.

Mae 81% o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn yn cymharu â 77% o bobl nad ydynt yn deall Cymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg yn cymryd rhan frwd yn y celfyddydau ac mewn gweithgareddau celfyddydol hefyd.

Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gyfranogi yn y celfyddydau. Mae hanner (49%) y Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach, o gymharu â 37% o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg ddwywaith yn fwy tebygol o wirfoddoli i drefnu digwyddiad celfyddydol neu ddiwylliannol na'r di-Gymraeg.

Roedd 36% o bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn ymwneud yn wirfoddol â threfnu digwyddiad neu weithgaredd celfyddydol yn ystod y flwyddyn flaenorol,

o'u cymharu â dim ond 15% o'r rhai heb ddealltwriaeth o'r Gymraeg.

(Daw'r uchod o Yr Iaith Gymraeg - Presenoldeb, Cyfranogiad ac Agweddau, 2005 ac Arolwg Omnibws Oedolion 2015.)

Fel y gwelwch, mae'n werth rhoi rhywfaint o ystyriaeth ac ymdrech i ddenu a meithrin cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith, ac fel sefydliad celfyddydol, byddwch yn gwthio drws sydd eisoes ar agor.

Wrth gwrs, dim ond rhan o'r darlun yw cyfathrebu a marchnata'n ddwyieithog. Mae angen i ni symud yn raddol tuag at sefyllfa lle mae cwmnïau ac artistiaid yn galluogi siaradwyr di-Gymraeg i ddeall rhywfaint o'r hyn sy'n digwydd mewn digwyddiadau a pherfformiadau Cymraeg hefyd. Mae hyn yn gynyddol bwysig yng Nghymru heddiw lle y ceir galluoedd ieithyddol gwahanol yn aml o fewn teuluoedd a grwpiau o ffrindiau. Gweler yr adran o'r enw 'Creu Diwylliant Dwyieithog mewn Digwyddiadau a Pherfformiadau' tuag at ddiwedd y pecyn cymorth hwn am syniadau ynglŷn â sut i gyflawni hyn.

Mae mwy a mwy o deuluoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Weithiau gall hyn olygu bod un rhiant yn siarad Cymraeg, ond nid y llall. Yn fwy cyffredin byth mae teuluoedd lle nad yw'r naill riant na'r llall yn siarad Cymraeg, ond bod y plant yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn siarad ac yn ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl.

Mae hyn yn arwain at ddiwylliant ieithyddol diddorol iawn, ond mae hefyd yn creu heriau wrth farchnata'r celfyddydau - yn arbennig yn y celfyddydau perfformio, mewn gwyliau a digwyddiadau o'r fath. Mae angen i ni anelu at wneud ein celfyddydau Cymraeg yn fwy hygyrch i'r di-Gymraeg os ydym am ddenu'r cynulleidfaoedd mwyaf posibl, a hyd yn oed yn bwysicach, os ydym am gau'r bwlch ieithyddol yn niwylliant ein cenedl.

Fel sector gelfyddydol a diwylliannol, ni allwn barhau i gefnogi gwahanu ac ynysu'r celfyddydau a diwylliant yn ddiabyddol ar iaith. Yn yr un modd ag y mae siaradwyr Cymraeg sy'n llythrennog yn ddiwylliannol yn ymgysylltu â chelfyddydau a diwylliant yn y ddwy iaith, mae angen i gwmnïau ac artistiaid / perfformwyr sy'n cyflwyno cynnyrch drwy gyfrwng y Gymraeg groesawu siaradwyr di-Gymraeg yn rhan o'u cynulleidfaoedd hefyd.

Astudiaeth Achos: Tafwyl

Gŵyl flynyddol Menter Caerdydd yw Tafwyl. Mae'n ddatiliad o ddiwylliant Cymraeg ein prifddinas. Y prif nod yw hybu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned, drwy sicrhau ei bod yn dod yn rhan naturiol o fywyd bob dydd. Er bod Tafwyl yn wyl gwbl Gymraeg, caiff yr holl waith hyrwyddo a marchnata ei wneud yn ddwyieithog. Gofynasom i Llinos Williams o Tafwyl ddisgrifio polisi dwyieithog yr wyl a rhoi am ambell awgrym a chynghor.

"Rydym yn falch bod Tafwyl yn wyl sy'n croesawu pawb, boed yn siaradwyr Cymraeg, dysgwyr neu'n ddi-Gymraeg. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn Tafwyl yn siarad Cymraeg, o'r perfformwyr i'r gwirfoddolwyr, o'r gweithdai i'r staff sy'n gweithio tu ôl i'r bar, ond rydym yn gwneud pob ymdrech i'w gwneud yn hygyrch i bawb. Mae cynnal gŵyl ddwyieithog yn rhoi cyfle i'r gynulleidfa fod yn rhan o ddau ddiwylliant – ac i ddod i gysylltiad â phrofiadau a safbwyntiau gwahanol. Mae'n creu pont rhwng cymunedau ac yn cynyddu cyfleoedd a dewisiadau drwy wneud celfyddydau Cymraeg yn hygyrch. Mae hefyd yn rhoi llwyfan i fandiau Cymraeg berfformio i gynulleidfa ehangach.

Fel arfer nid ydym yn cyfieithu popeth air am air - mae yna rai pethau rydym yn ei ddweud wrth gynulleidfa Gymraeg sydd ychydig yn wahanol i'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'n cynulleidfa di-Gymraeg. Er enghraifft, mae ein disgrifiad o'r wyl yn wahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ein bod yn gwneud pwynt o ddweud nad oes rhaid i chi siarad Cymraeg i fwynhau'r wyl.

Mae'n hynod bwysig cydweithio â dylunydd neu asiantaeth dylunio sy'n gyfarwydd â dod o hyd i atebion dwyieithog, sy'n deall arfer gorau yn nhermau cyflwyno gwybodaeth yn ddwyieithog, nid Cymraeg - Saesneg, Cymraeg - Saesneg yn unig. Mae llawer o ffyrdd gwell o gyflwyno gwybodaeth ddwyieithog mewn modd atyniadol a phriodol.

Yn Tafwyl, nid ydym byth yn defnyddio Google translate gan nad yw'n gywir yn aml. Byddem yn awgrymu os ydych yn bwriadu cyfathrebu'n ddwyieithog, ei bod yn bwysig gwneud hynny'n gywir, a pharchu'r ddwy iaith, nid ei wneud fel rhywbeth symbolaidd yn unig. Os nad yw aelod o'ch tîm yn gallu cyfieithu'n gywir ac yn rhugl, mae'n hynod bwysig talu i gyfieithydd neu asiantaeth allanol wneud hynny ar eich rhan.

Ydy, mae'n cymryd ychydig mwy o amser i wneud popeth yn ddwyieithog, ac mae'n costio ychydig mwy i argraffu deunyddiau hyrwyddo a marchnata dwyieithog. Ond, yr iaith Gymraeg sy'n ein gwneud yn wahanol i bob un o wledydd arall y Deyrnas Unedig, mae'n gwneud ein diwylliant yn wahanol, a dylai pob un ohonom yn y celfyddydau yng Nghymru ymfalchïo ynddi. Dylem sylweddoli hefyd bod marchnata'n ddwyieithog yn dipyn o arf marchnata cudd sy'n ein galluogi, o'i ddefnyddio'n gywir, i gynyddu ein cynulleidfaoedd ac i ddatblygu dealltwriaeth ddiwylliannol a chelfyddydol yma yng Nghymru."



Tafwyl (Iluniau: Menter Caerdydd)

Ynglŷn â'r Pecyn Cymorth Hwn

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi comisiynu'r pecyn cymorth hwn i ddarparu cymorth a chanllawiau ymarferol ac amlinellu'r arferion gorau cyfredol o ran cyfathrebu'n ddwyieithog mewn perthynas â'r celfyddydau a diwylliant. Mae'n amlinellu'r daith o farchnata a hyrwyddo'r digwyddiad, i gyfranogi / ymgysylltu â'r digwyddiad a deialog a pherthynas barhaus.

Drwy gyfres o ymarferion a thasgau syml, y bwriad yw eich helpu i ymchwilio i ffyrdd y gallwch chi a'ch sefydliad helpu i gau'r bwlch ieithyddol yn ein gwlad diwylliannol. Mae'n ymwneud â dod o hyd i ffyrdd ymarferol o wneud diwylliant ein Cenedl yn hygyrch, beth bynnag yw gallu ieithyddol rhywun.

Er mwyn gwneud hynny, bydd yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol:

- Helpu sefydliadau sy'n gweithio drwy gyfrwng y Saesneg i ddeall manteision real a phendant iawn marchnata a hyrwyddo cynnyrch neu dalent creadigol yn effeithiol i siaradwyr Cymraeg, sy'n cyfrif am 21% o'n poblogaeth.
- Helpu sefydliadau sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ddeall sut i wneud digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn hygyrch i'r di-Gymraeg, sydd ar hyn o bryd yn cyfrif am 79% o'n poblogaeth.

Yn y bôn, mae'n ymwneud â chynyddu gallu sefydliadau celfyddydol ac artistiaid i gyrraedd cynulleidfa chwilfrydig sy'n ymddiddori yn y celfyddydau ac sydd ar stepen y drws, ac i gyfathrebu â'r gynulleidfa honno, p'un a ydynt

yn siarad Cymraeg ai peidio. Mae'n ymwneud â'ch helpu chi i groesawu materion sy'n ymwneud â dwyieithrwydd ac i roi mesurau ar waith yn rhwydd, yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau bod ein celfyddydau a'n diwylliant yn hygyrch yn ieithyddol. Mae'n ymwneud â chreu cenedl wirioneddol ddwyieithog.

Os nad ydych yn gyfarwydd â'r gynulleidfa hon ac yn wir, â'r ffordd hon o feddwl, yn arbennig os nad ydych yn siarad neu'n ysgrifennu'r Gymraeg eich hun, rydym yn ymwybodol y gall y syniad o farchnata'n ddwyieithog godi ofn ar rywun. Gall ychwanegu at y gost, gall gynyddu'r amser a dreulir yn creu deunyddiau marchnata, a gwyddom ei fod yn eithaf brawychus delio â'r cyfryngau Cymraeg os nad ydych yn gallu siarad yr iaith.

Yn yr un modd, mae ymarferwyr a marchnatwyr celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg yn wynebu rhwystrau o ran gwneud y diwylliant Cymraeg yn hygyrch i'r di-Gymraeg. Mae'n golygu cost ychwanegol, mwy o waith meddwl, atebion creadigol, amser ychwanegol a grym ewyllys. Gall newid canfyddiadau, chwalu credoau hirsefydlog a gwrthdroi'r agwedd 'dyma sut rydym wedi'i wneud erioed,' fod yn anodd. Ond nid ydym yn byw mewn cenedl lle y caiff yr iaith Gymraeg ei hanwybyddu bellach. Nid ydym yn ymladd am yr hawl i siarad yr iaith bellach. Mae Cymru fodern yn gymdeithas gosmopolitan gyda chymunedau sydd â galluoedd ieithyddol cymysg. Mae'n bryd i ni fuddsoddi mewn rhannu ein trysorau celfyddydol nid dim ond gyda'r di-Gymraeg o'n cwmpas, ond gyda'r byd. Dim ond drwy eu gwneud yn hygyrch y gallwn wneud hynny. Mae'r adran ar ddiwedd y pecyn cymorth hwn o'r enw 'Creu Diwylliant Dwyieithog mewn Digwyddiadau a Pherfformiadau' yn ymwneud yn benodol â'r mater hwn.

Cyd-Destun Deddfwriaethol ar gyfer Iaith yng Nghymru Heddiw

Mae deall y fframwaith ar gyfer datblygu arferion gwaith dwyieithog yn ddefnyddiol iawn. Mae yna lawer o ddeddfwriaeth, ac mae'n newid o bryd i'w gilydd, felly dyma grynodedb o'r prif strategaethau a'r fframweithiau sy'n berthnasol i sefydliadau celfyddydol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru

Gweld y Gymraeg yn ffynnu yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru. I gyflawni hynny, maen nhw wedi cyhoeddi strategaeth, gyda'r nod o weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad yr iaith, ac sy'n ei defnyddio yn ystod y degawd hwn.

Y chwe nod a amlinellir yn y strategaethyw:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Gymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Mae modd lawrlwytho copi llawn o 'Iaith fyw: Iaith byw' o wefan Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/topics/welshlanguage/publicationswlstrategy2012/?skip=1&lang=cy>

Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru agwedd eang a chynhwysol tuag at iaith - un sy'n eistedd o fewn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n llwyr gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru ddwyieithog, a'r dyhead i greu cymdeithas lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg, neu'r ddwy iaith. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd annog datblygiadau creadigol ac uchelgeisiol, a fydd yn meithrin amgylchedd ar draws y celfyddydau a fydd yn hybu defnydd a thwf y Gymraeg. Dyma pam mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn disgwyl i bob sefydliad sy'n cael cyllid refeniw i adlewyrchu'r gofynion sydd yng Nghynllun y Gymraeg.

Mae cymdeithas deg, hael a goddefgar yn parchu ac yn gwerthfawrogi diddordebau, anghenion a chreadigrwydd pob un o'i dinasyddion. Nod Cyngor y Celfyddydau yw chwarae ei ran i hybu cymdeithas sy'n croesawu cydraddoldeb ac yn dathlu amrywiaeth lle y gwelir dwyieithrwydd ac amlieithrwydd fel rhinwedd sy'n gallu cyfoethogi ac ymestyn ein diwylliant.

Dyma'r prif bwyntiau o Gynllun Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n berthnasol i sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw, ymgeiswyr am grantiau a phartneriaid o fewn y celfyddydau yng Nghymru:

Gweithio gyda chleientiaid:

- Mae Cyngor y Celfyddydau yn symud fwyfwy tuag at berthynas fwy cydweithredol â sefydliadau refeniw. Disgwylia'r Cyngor iddynt barchu ac adlewyrchu'r egwyddorion y mae'n ceisio eu hybu drwy Gynllun y Gymraeg. Mae'r Cyngor yn disgwyl i bob sefydliad refeniw fabwysiadu ffordd ragweithiol yn y maes hwn. Rhydd y Cyngor gefnogaeth ac anogaeth i sefydliadau sy'n ceisio gwella eu hymarfer. Ond hefyd, mae'r Cyngor yn rhoi cosbau mewn achosion lle teimlir bod sefydliad yn ymwrthod yn fwriadol â dilyn ffordd ymlaen sydd yn eu tyb hwy yn briodol. Mae'r rhain yn faterion a drafodir â sefydliadau refeniw yn ystod Cyfarfodydd Adolygu Blynyddol. Defnyddir cytundebau refeniw ac adolygiadau blynyddol i sicrhau bod cleientiaid refeniw, a chwmnïau cenedlaethol yn enwedig, yn cydymffurfio â dyheadau Cyngor y Celfyddydau fel y'i mynegir yng Nghynllun y Gymraeg.
- Bydd cynnydd sefydliadau a ariennir yn cael ei fonitro mewn meysydd y cytunwyd arnynt yn rhan o'r cyfarfodydd adolygu blynyddol. Cofnodir y tueddiadau cyffredinol a nodir yn y cyfarfodydd hyn ac fe'u cyflwynir i'r Cyngor bob blwyddyn neu'n ôl yr angen.
- Bydd amodau grant safonol priodol yn nodi'r gofynion lleiaf oddi wrth gleientiaid refeniw a phrosiect a'r camau a gymerid pe na chyflawnid y gofynion hyn.
- Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi manylion cyswllt mentrau iaith i unigolion a

sefydliadau â'r nod o rannu adnoddau ac arbenigedd.

- Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi hawl i sefydliadau Cymraeg a di-Gymraeg drafod materion am unrhyw agwedd ar ddarpariaeth gelfyddydol yn y Gymraeg. Yn fwy na hynny, mae'r Cyngor yn cychwyn trafodaethau o'r fath mewn seminarau achlysurol a chyfarfodydd arbennig.
- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymroi i ddatblygu ei ddyheadau iaith ei hunan drwy waith cleientiaid mewn ysbryd o oddefgarwch a chynwysoldeb oherwydd mae'n cydnabod hawl pobl i archwilio diwylliant a chreadigrwydd yn eu dewis iaith.
- Gyda'r arian sydd ar gael drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, bydd yn arddangos ei ymrwymiad i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i waith sy'n wahanol o ran diwylliant a bydd targedau'n adlewyrchu sut y creir rhagor o gyfleoedd gwell yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gweithio â sefydliadau partner

- Wrth wahodd tendrau ar gyfer y fath gontractau, sonnir yn benodol yn nogfennaeth y tendr am y manylion ieithyddol a chynhwysir trefniadau monitro arferol y fath gontractau adroddiadau perfformio rheolaidd ar weithredu'r cynllun.
- Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi datblygiadau Cymraeg cyrff cyhoeddus eraill a manteisio ar bob cyfle i hybu a datblygu defnydd yr iaith ymhlith sefydliadau eraill y maent mewn cysylltiad â hwy, yng Nghymru a'r tu allan.
- Disgwylir i sefydliadau partner sy'n darparu gwasanaethau, cefnogaeth neu arian i

sefydliadau neu unigolion yng Nghymru ddarparu deunydd Cymraeg a thalu amdano. Cynorthwya'r Cyngor y partneriaid hyn i gysylltu â sefydliadau arbenigol, priodol yng Nghymru.

- Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn annog sefydliadau nad yw Deddf y Gymraeg yn eu cynnwys i weithredu yn ôl ysbryd y Ddeddf. Gwneir hyn drwy wahodd sefydliadau yn eu ceisiadau i fynd i'r afael â sut yr adlewyrchant natur ddwyieithog y gymuned y gweithiant ynddi a'u cynulleidfaoedd a dargedant.

Grantiau a chontractau

- Pan fydd Cyngor y Celfyddydau'n cwblhau contractau ffurfiol â thrydydd partïon o ran darparu gwasanaethau i gyhoedd Cymru, bydd yn sicrhau bod y fath gontractau'n gyson â thelerau Cynllun y Gymraeg. Yn ogystal, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn argymhell bod pob parti yn mynd at ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd ar gael ar ei wefan ac ar ffurf gopi called sef Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion Cymraeg neu'r cyhoeddiadau sy'n dod wedyn.

Mae modd lawrlwytho copi o Gynllun y Gymraeg Cyngor y Celfyddydau ar y wefan: <http://www.celfcymru.org.uk/about-us/governance/corporate-policies/iaith-gymraeg?diablo.lang=cym>

Mae copi o'r canllawiau, Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Ystyried y Gymraeg ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, yma: <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/manylioncyhoeddiad.aspx?publicationid=200a58a8-b96b-48a0-8adc-051cf537be4e&publicationsearchterm=grants>

Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dylwetwydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad yn ymwneud â'r Gymraeg.

Y Safonau:

- yn ei gwneud yn eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- yn ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- yn sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg ar draws sefydliadau a gwella eu hansawdd
- yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn modd rhesymol a chymesur

Gellir dod o hyd i ddiweddariadau ynglŷn â datblygiad y Safonau a'r broses ymgynghori a gweithredu ar wefan Comisiynydd y Gymraeg: <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx>

Camau Tuag at Weithio'n Ddwieithog

Mae gweddill y pecyn cymorth hwn yn cynnwys cyfres o weithgareddau a chanllawiau ymarferol i wella natur ddwyieithog eich sefydliad neu'ch gwaith creadigol, gan ganolbwyntio ar gyfathrebu'r gwaith hwnnw'n effeithiol.

Awgrymiadau yw'r rhain. Darllenwch drwy'r opsiynau, ac ystyriwch pa agweddau rydych yn teimlo bod modd i chi eu rhoi ar waith yn y tymor byr (y 6 mis nesaf), y tymor canolig (6 i 18 mis) ac yn yr hirdymor (18 mis i 5 mlynedd). Mae'n syniad da atgyfnerthu'r meddylfryd hwn, ei rannu â chydweithwyr, a chofnodi eich ymrwymiad fel rhan o ddogfennaeth eich cwmni ar ffurf 'Polisi Dwyieithog'.

Bydd y pecyn cymorth hwn yn eich tywys gam wrth gam drwy'r broses o ddatblygu Polisi'r Gymraeg. Nid oes angen iddi fod yn ddogfen gymhleth, fel datganiad mynediad, ond yn hytrach drosolwg o'r sefyllfa ar hyn o bryd, ac ymrwymiad i ddarparu mynediad i'ch gwaith drwy ddulliau ieithyddol cytbwys a phriodol.

Dilynwch y camau a amlinellir yn yr adrannau nesaf. Os ydych yn dymuno dysgu popeth sydd i'w wybod am Gynlluniau Iaith, edrychwch ar wefan Comisiynydd y Gymraeg sy'n llawn adnoddau defnyddiol ar-lein ynglŷn â sut i fynd i'r afael â hyn. Edrychwch ar:

<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/cymraeg/dyletswyddau%20iaith/Paratoi%20Cynlluniau%20Iaith%20Gymraeg/Pages/Paratoi-cynlluniau-iaith-Gymraeg.aspx>

Datblygu Polisi'r Gymraeg

Yn yr adran hon ceir canllaw ymarferol i ddatblygu polisi'r Gymraeg ar gyfer eich sefydliad. Ceir canllawiau ynglŷn â chefnogi siaradwyr di-Gymraeg i gael mynediad at gelfyddydau Cymraeg yn yr adran isod o'r enw 'Creu Diwylliant Dwyieithog mewn Digwyddiadau a Pherfformiadau'.

Y ffordd orau i ddechrau yw drwy gynnal archwiliad o'ch adnoddau iaith presennol. Dilynwch yr holiadur archwilio isod:

Archwiliad o'r Defnydd Presennol o Iaith

Adran 1 - Pobl

1. Pa ganran o'ch gweithlu / tîm / staff sy'n gallu siarad Cymraeg?

Sgôr 0% 1-15% 16-30% 31-50% 51-75% 76-100%
Sgôr 0 1 2 3 4 5

2. Pa lefel o allu yn y Gymraeg sy'n bodoli o fewn y sefydliad?

(Efallai y byddai'n werth gofyn i aelodau eich tîm beth yn eu tyb hwy yw lefel eu rhuglder a'u gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg.)

Neb Sgôr 0

Un neu fwy o ddysgwyr Sgôr 1

Un neu fwy o siaradwyr Cymraeg hyderus, rhugl Sgôr 2

Un neu fwy sy'n gallu ysgrifennu yn y Gymraeg i safon sylfaenol Sgôr 3

Un neu fwy sy'n gymwys i ysgrifennu yn y Gymraeg Sgôr 4

3. O'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn hyderus, a yw'n amlwg i'r cyhoedd / gynulleidfa eu bod yn gallu cyfathrebu â hwy yn y naill iaith neu'r llall?

Wyneb yn wyneb Sgôr 1

Drwy e-bost / llythyr Sgôr 1

Dros y ffôn (e.e. wedi'i hyrwyddo ar eich gwefan?) Sgôr 1

4. Beth yw canran y Siaradwyr Cymraeg ar eich bwrdd (os yn berthnasol)?

Sgôr 0% 1-15% 16-30% 31-50% 51-75% 76-100%
Sgôr 0 1 2 3 4 5

Cyfanswm sgôr Adran 1 _____ (allan o gyfanswm posibl o 17)

Adran 2 - Cyfathrebu

5. A ydych yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog?

Nac ydw/Nac ydym Ydw/Ydym
Sgôr 0 1

6. A yw'r neges ar eich peiriant ateb yn ddwyieithog?

Nac ydy Ydy
Sgôr 0 1

7. Os yw aelod o'r cyhoedd / gynulleidfa yn dymuno cyfathrebu â chi / â'ch sefydliad drwy gyfrwng y Gymraeg, a ydych yn gallu hwyluso hynny?

Nac ydw/Nac ydym Ydw/Ydym
Sgôr 0 1

8. A ydych yn hyrwyddo'r ffaith eich bod yn hapus i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Nac ydw/Nac ydyn Ydw/Ydyn
Sgôr 0 1

9. A allwch chi gynnal cyfarfodydd / gweithdai / digwyddiadau (e.e. agoriad arddangosfa) yn ddwyieithog, naill ai drwy bresenoldeb aelod fîm dwyieithog neu weithiwr allanol neu drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu?

Gallwn Ni allwn
Sgôr 0 1

10. A ydych yn hysbysebu / hyrwyddo eich digwyddiadau'n ddwyieithog?

Byth Yn achlysurol Y rhan fwyaf Bob tro
Sgôr 0 1 o'r amser 2 3

11. Faint o ddeunydd / gwaith print a gyhoeddir gan eich sefydliad sy'n gwbl ddwyieithog?

	Dim <input type="checkbox"/>	Ychydig <input type="checkbox"/>	Y rhan fwyaf <input type="checkbox"/>	Y cyfan <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3

12. A yw eich gwefan

	Yn uniaith Saesneg <input type="checkbox"/>	Yn cynnwys rhywfaint o Gymraeg <input type="checkbox"/>	Yn gwbl ddwyieithog <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2

13. Faint o ddeunydd cyfryngau cymdeithasol eich sefydliad sy'n ddwyieithog?

	Dim <input type="checkbox"/>	Ychydig <input type="checkbox"/>	Y rhan fwyaf <input type="checkbox"/>	Y cyfan <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3

14. A ydych yn cyfarch ymwelwyr i'ch adeilad / perfformiadau yn ddwyieithog?

	Nac ydym <input type="checkbox"/>	Ydym <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1

15. A yw eich llofnodion e-bost yn ddwyieithog?

	Dim <input type="checkbox"/>	Ychydig <input type="checkbox"/>	Y rhan fwyaf <input type="checkbox"/>	Y cyfan <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3

Cyfanswm sgôr Adran 2: _____ (allan o gyfanswm posibl o 20)

Gweinyddiaeth Fewnol

16. Faint o ddogfennau mewnol eich sefydliad, e.e. polisiâu staff, cytundebau ac ati sy'n ddwyieithog?

	Dim <input type="checkbox"/>	Ychydig <input type="checkbox"/>	Y rhan fwyaf <input type="checkbox"/>	Y cyfan <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3

17. A oes gennych arwyddion dwyieithog y tu mewn a'r tu allan i'ch adeilad?

Sgôr Dim Ychydig Y rhan fwyaf Y cyfan
 0 1 2 3

18. A yw eich hysbysiadau cyhoeddus, hysbysebion swydd ac ati yn ddwyieithog?

Sgôr Nac ydyn Ydyn
 0 1

19. A oes gennych Bolisi laith?

Sgôr Nac oes Oes
 0 1

20. A yw meddalwedd gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg wedi'i osod ar eich offer swyddfa?

Sgôr Nac oes Oes
 0 1

21. A ydych yn casglu data ar gynulleidfaoedd sy'n ymwneud â dewis iaith at ddibenion cyfathrebu, e.e. rhestr bostio, ffurflenni aelodaeth ac ati?

Sgôr Byth Weithiau Y rhan fwyaf Bob tro
 0 1 o'r amser 2 3

Cyfanswm Sgôr adran 3: _____ (allan o gyfanswm posibl o 12)

Cyfanswm Sgôr: _____ (allan o gyfanswm posibl o 49)

Dylech allu gweld yn glir o'ch sgoriau adran a'ch sgôr cyffredinol, ym mha feysydd o'ch gweithgareddau mae lle i ddatblygu o ran dwyieithrwydd, ac efallai eich bod eisoes wedi nodi rhai o'r pethau y gallech eu rhoi ar waith.

Cymerwch funud neu ddau i ysgrifennu ychydig o nodiadau i'ch helpu i werthuso eich darpariaeth ieithyddol bresennol chi / darpariaeth ieithyddol eich sefydliad:

A. Beth ydym yn ei wneud yn dda ar hyn o bryd o ran dwyieithrwydd?

B. Ble y gellir gwneud y gwelliannau mwyaf?

C. Beth yw'r pethau hawsaf i'w datrys / rhoi ar waith?

Ch. Pa bethau y gallaf eu newid yn y tymor byr?

D. Beth yw'r rhwystrau rhag gwneud hynny?

Dd. Pa newidiadau fydd yn cael yr effaith fwyaf?

E. Pa newidiadau fydd yn cymryd mwy o amser, a pham?

Nawr eich bod wedi cynnal archwiliad o ddarpariaeth ieithyddol bresennol eich busnes / sefydliad, ac wedi deall lle y gallwch wneud newidiadau, edrychwch drwy'r canllawiau dilynol a fydd yn dangos i chi sut y gallwch wneud newidiadau, a phwy all helpu.

Canllawiau

Adran 1: Pobl

Datblygu Diwylliant Dwyieithog yn y Cwmni

Mae nifer o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd, yn dibynnu ar y math o gwmni neu gelfyddyd yr ydych yn eu cynrychioli, sy'n gallu helpu i ddatblygu awyrgylch dwyieithog wrth wraidd eich gweithgaredd ac yn y gweithle.

Dyma ambell gyngor:

- Gwahodd siaradwr Cymraeg i fod yn aelod o'ch Bwrdd, os oes gennych un. Mae hon yn ffordd wych o ddechrau cael rhywfaint o gyngor ac ystyried dwyieithrwydd ar lefel strategol.
- Cynyddu sgiliau dwyieithog y tîm o staff. Gall hyn ddigwydd mewn amryw o ffyrdd:
 - Galluogi / cefnogi staff presennol i ddysgu Cymraeg. Bydd eich Menter Iaith leol (gweler yr adnoddau isod) yn gallu cynghori ar gyrsiau dysgu Cymraeg lleol a allai gefnogi hyn. Efallai y gallai sefydliadau mwy o faint ystyried cyflogi tiwtor i ddod atoch amser cinio yn ystod yr wythnos waith i weithio â'r staff, ac efallai y gallai sefydliadau llai feddwl am gefnogi aelodau o'r tîm drwy ganiatáu ychydig oriau iddynt fynd i wersi Cymraeg bob wythnos.
 - Mynd ati'n fwriadol i benodi siaradwyr Cymraeg pan ddaw lle gwag ar eich tîm.
 - Ateb y ffôn yn ddwyieithog. Defnyddiwch 'Bore Da / Prynawn Da' cyn enw eich sefydliad, fel cyfarchiad ffôn safonol. Gwyddom y gallech fod yn poeni am y disgwyliad a gaiff ei greu yn sgil hyn, ond os na allwch barhau â'r sgwrs yn y Gymraeg gyda siaradwr Cymraeg ar ben arall y ffôn, yna gallwch esbonio er nad ydych yn siarad yr iaith, eich bod yn gefnogol i'r Gymraeg fel cwmni / artist.
- Penynnau llythyr ac e-bost a llofnodion e-bost dwyieithog. Mae'n hawdd creu papur pennawd dwyieithog. Ystyriwch addasu'r rhain y tro nesaf y byddwch yn archebu deunydd papur. Mae'n haws byth creu llofnodion e-bost dwyieithog. Gallech arwyddo drwy ddefnyddio '*Cofion Gorau / Best wishes*', neu'n fwy ffurfiol '*Yn Gywir / Sincerely*'.
- Os oes gennych siaradwyr Cymraeg yn eich sefydliad mewn rôl rheng flaen, sy'n cyfathrebu â chwsmeriaid neu'r gynulleidfa, sicrhewch ei bod yn hawdd ei adnabod. Ymgyrch gan Gomisiynydd y Gymraeg yw 'Iaith Gwaith' i hybu presenoldeb siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, yn enwedig mewn rolau cyhoeddus. Edrychwch ar yr adran hon o'r wefan, lle bydd modd i chi gael rhagor o wybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael a ffyrdd eraill o gefnogi dwyieithrwydd yn y gweithle. www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/Pages/ArchebuNwyddauCymraeg.aspx
- Mae cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd allweddol, cynadleddau neu ddigwyddiadau yr ydych yn eu trefnu hefyd yn help mawr i roi dewis yn y cyfarfodydd hynny i'r rhai yr ydych yn cydweithio neu'n cydweithredu â hwy ar draws y diwydiant ynglŷn â pha iaith yr hoffent gyfrannu ynddi. Gall hyn gynnwys gwahodd cyflwyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dod o hyd i gyfieithydd neu wasanaeth cyfieithu yn eich ardal yn hawdd. Cysylltwch â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru (gweler yr adran adnoddau ar ddiwedd y pecyn cymorth).

Adran 2: Cyfathrebu

Marchnata'n Ddwyeithog

Mae creu a chynnal dwyeithrwydd ar draws eich deunyddiau marchnata a chyfathrebu yn gam mawr tuag at gyfathrebu â chynulleidfa ehangach, ac i ddangos eich cefnogaeth i genedl ddwyieithog. Fel y crybwyllir ar ddechrau'r pecyn hwn, mae'n gwneud synnwyr busnes cryf hefyd, ac yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu perthynas â chynulleidfa sy'n llythrennog yn y celfyddydau sydd efallai erioed wedi ymgysylltu â chi a'ch gwaith o'r blaen.

Dyma rai awgrymiadau a chynghorion sylfaenol:

- Mae pob siaradwr Cymraeg yn y DU yn siarad Saesneg. Y protocol felly o ran pa iaith sy'n ymddangos gyntaf mewn copi, yn naturiol yw'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg wedyn. Nid oes a wnelo â blaenoriaethu neu â ph'un sydd bwysicaf. Dim ond mesur ymarferol ydyw. Pam y dylai siaradwyr Cymraeg ddarllen y copi Cymraeg os ydynt eisoes wedi deall cynnwys yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu yn Saesneg?
- Peidiwch â thybio oherwydd bod gennych un neu ddau o siaradwyr Cymraeg yn y cwmni eu bod yn gallu cyfieithu ar eich rhan. Mae cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac i'r gwrthwyneb yn sgîl arbenigol. Mae Cymraeg yn iaith anodd a chanddi lawer o reolau gramadegol, ac mae cyfieithiad gwael, yn llawn gwallau sillafu a gramadegol yn waeth na dim cyfieithiad o gwbl. Datblygwch berthynas waith dda â chyfieithydd neu wasanaeth cyfieithu. Y tu hwnt i'ch helpu i gyfieithu deunyddiau, byddant hefyd yn seinfwrdd gwerthfawr ar gyfer syniadau ac yn gymorth i ddod o hyd i atebion priodol ac effeithiol ar gyfer cyfathrebu a marchnata'n ddwyieithog.
- Ceir rhai achosion lle y byddech o bosibl yn dewis cyfieithu'r holl destun air am air yn ei gyfanrwydd, er enghraifft os yw'r copi Cymraeg yn annibynnol ar y Saesneg, e.e. datganiad i'r wasg, neu pe baech yn creu taflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer eich perfformiad neu leoliad. Fodd bynnag, ceir mwy o achosion lle mae'n fwy priodol addasu'r cynnwys Cymraeg er mwyn rhoi gwedd ychwanegol neu wahanol i siaradwyr Cymraeg ar y cynnyrch neu'r digwyddiad. Byddech yn dal i gynnwys y wybodaeth sylfaenol a phwysig, ond yn addasu'r elfennau mwy golygyddol a hyrwyddol, efallai er mwyn ystyried rhagwybodaeth ddiwylliannol. Efallai y byddai modd i gyfieithydd neu wasanaeth cyfieithu da roi arweiniad i chi ynghylch beth allai fod yn briodol ym mhob achos.
- Nid oes angen i chi fod yn siaradwr Cymraeg i gysylltu â'r cyfryngau Cymraeg. Bydd y timau ymchwil a chynhyrchu yn hapus i siarad â chi yn glân â'r stori a'i thrafod yn Saesneg, ond mae datganiad i'r wasg wedi'i gyfieithu'n bwysig. Mae'n rhan o'r pecyn cymorth dwyeithog i'r Wasg ac yn ddogfen briffio bwysig ar gyfer sianelau cyfryngau Cymraeg.
- Nid yw'r ffaith bod eich cynhyrchiad yn cael ei berfformio yn Saesneg yn golygu na all eich deunydd marchnata fod yn ddwyieithog. Sicrhewch eich bod yn nodi'n glir mai Saesneg yw iaith y perfformiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.
- Byddai'n wych meddwl y byddai modd ymdrin â phob ymholiad i'n cwmnïau celfyddydol yn ddwyieithog rhyw ddydd, fodd bynnag, nid ydym wedi cyrraedd y pwynt hwn eto. Mae amryw yn poeni am y disgwyliad a gaiff ei greu drwy farchnata'n ddwyieithog, sef y disgwyliad bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu cyfathrebu â thîm y cwmni drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn ffonio neu'n e-bostio. Rydym

yn deall bod hyn yn anodd i sefydliadau celfyddydol bach ac artistiaid unigol, felly dyma ein cyngor. Defnyddiwch 'Bore Da / Prynawn Da' cyn dweud enw eich cwmni, fel cyfarchiad ffôn safonol. Os na allwch barhau â'r sgwrs yn Gymraeg gyda siaradwr Cymraeg ar ben arall y ffôn, gallwch esbonio er nad ydych yn siarad yr iaith, eich bod yn gefnogol i'r Gymraeg fel cwmni / artist.

Dyma olwg fanylach ar ddwyieithrwydd ym maes marchnata a chyfathrebu:

Dylunio Dwyieithog

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi creu canllawiau cyfredol a chynhwysfawr iawn ar ddylunio dwyieithog, sy'n cynnwys arferion gorau ac opsiynau amgen ar bob agwedd ar ddylunio dwyieithog a chreu deunydd marchnata a chyfathrebu'n gyfochrog.

Mae'r canllaw ymarferol hwn yn eich tywys drwy bob cam o'r prosiect:

- Cynllunio
- Cyfieithu a chreu testunau dwyieithog
- Teipiau
- Gwahanu'r ieithoedd
- Cysodi
- Cost

Wedyn mae'n cysylltu'r dull â'r defnydd gwahanol ohono, o frandio dwyieithog i arwyddion, ffurflenni i hysbysebion, gwefannau i gyflwyniadau PowerPoint.

Mae'r canllaw ar gael yn rhad ac am ddim a gellir ei lawrlwytho o wefan y Comisiynydd. Dyma ddolen i'r dudalen lawrlwytho:
<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/CYG1754%20Canllaw%20Dylunio%20CYMRAEG.pdf>

Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus Dwyieithog

Mae cyfathrebu eich storïau drwy'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg yn ffordd o roi sylw ychwanegol i'ch ymgyrchoedd, eich digwyddiadau a'ch gwaith. Mae'n gwbl synhwyrol, ond i gael copi golygyddol, bydd angen stori briodol arnoch chi.

Yn achos gwaith cyfrwng Saesneg, gallai hynny fod yn her, oni bai wrth gwrs bod gan y gwaith thema Gymraeg /diwylliannol Gymreig gref neu'n ymdrin â materion sy'n wynebu ein cymunedau Cymraeg a/neu bod gennych berfformwyr sy'n siarad Cymraeg a fyddai'n siaradwyr da ar gyfer cyfweiliadau ac ati.

Er y gallwch drafod eich stori â'r cyfryngau Cymraeg drwy gyfrwng y Saesneg, byddant yn disgwyl datganiad i'r wasg yn y Gymraeg, felly mae'n syniad da cael cyfieithydd i weithio ar hwn ar eich rhan.

Dyma ychydig o wybodaeth am y prif gyfryngau Cymraeg yng Nghymru:

Canllaw i'r Gyfryngau Cymraeg

Cyfryngau Darlledu:

BBC Radio Cymru

Sefydlwyd BBC Radio Cymru yn 1977 ac mae'n darlledu ystod lawn o raglenni'n ddyddiol. Mae'n sianel radio sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y Gymraeg ac mae'n darlledu cymysgedd eang o raglenni ar gyfer pobl o bob oed. Un o'i phrif lwyddiannau yn y blynyddoedd diweddar yw C2, sy'n rhoi sylw i gerddoriaeth a bandiau ifanc bob nos.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â BBC Radio Cymru, gan gynnwys rhaglenni ac amserlenni

cyfredol, edrychwch ar eu tudalennau gwe:
www.bbc.co.uk/radiocymru

S4C - sianel deledu Gymraeg

Heddiw rydym i gyd yn cymryd S4C yn ganiataol, ond mae'n ganlyniad ymgyrchoedd dwys a hirfaith gan ymgyrchwyr iaith yn ystod y 1970au. Ar ôl brwydr hir, lansiwyd S4C ar ein sgriniau teledu o'r diwedd ar y 1af o Dachwedd 1982. Mae'n darlledu dros 115 awr o raglenni'r wythnos o ddramâu i ddogfennau, adloniant ysgafn i faterion cyfoes, a darllediadau o groestoriad da o ddigwyddiadau a gwyliau Cymreig drwy gydol y flwyddyn.

Mae rhaglenni'r dydd yn cynnwys rhaglenni i blant meithrin o dan y brand 'Cyw', rhaglenni i blant saith mlwydd oed a hŷn o dan y faner 'Stwnsh', a rhaglenni wedi'u hanelu at yr ardegau yn ystod oriau amser te.

Mae rhaglenni cylchgrawn S4C yn y prynhawn a gyda'r nos yn aml yn cynnwys gwesteion ac eitemau ar y celfyddydau a digwyddiadau diwylliannol, ac ar hyn o bryd mae'r sianel yn cefnogi rhaglenni ar y celfyddydau a diwylliant. Darlledwr yw S4C. Mae'n comisiynu rhaglenni, ond nid yw'n eu cynhyrchu'n fewnol. Mae'n dibynnu ar gwmnïau annibynnol i greu'r rhain, ac yn aml gyda'r rhain y dylai'r ddeialog ynglŷn â'ch cynnyrch, digwyddiad neu gelfyddyd gychwyn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan ddwyieithog S4C, sy'n cynnwys amserlenni, disgrifiadau a dolenni i wefannau defnyddiol eraill. www.s4c.cymru

Mae nifer o orsafoedd radio lleol a rhanbarthol yn darlledu yn y Gymraeg, gan amlaf yn cynnig rhaglenni yn y Gymraeg. I gael rhestr gyflawn o'r rhain, edrychwch ar restr Wikipedia: www.en.wikipedia.org/wiki/List_of_Welsh-language_media

Papurau Newydd a Chylchgronau Cymraeg

Ceir nifer o gylchgronau Cymraeg cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Dyma'r prif rai:

Golwg

Cylchgrawn wythnosol yw Golwg sy'n cynnwys newyddion a materion cyfoes o Gymru. Ar hyn o bryd Golwg sydd â'r cylchrediad mwyaf o'r holl gylchgronau Cymraeg sef oddeutu 12,000 y mis. Ym mis Mai 2009 lansiwyd gwasanaeth ar-lein newydd o'r enw Golwg360 www.golwg360.cymru), sy'n caniatáu i chi lwytho storïau a hysbysebion am ddigwyddiadau lleol yn eich ardal chi i'r wefan.

Barn

Cylchgrawn materion cyfoes misol yw Barn. Fe'i sefydlwyd yn 1962 ac mae'n cynnwys erthyglau sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth, iaith, diwylliant, y celfyddydau a chwaraeon o Gymru, y DU a'r cyfandir o safbwynt Cymreig. www.cylchgrawnbarn.com

Y Cymro

Cyhoeddwyd Y Cymro am y tro cyntaf yn 1932. Dyma ein hunig bapur cenedlaethol a gyhoeddir yn y Gymraeg. Caiff ei gyhoeddi'n wythnosol ar ddydd Gwener. Ym mis Ebrill 2010, lansiwyd argraffiad ar-lein o'r Cymro sydd ar gael drwy danysgrifiad. www.y-cymro.com

Papurau Bro

Mae Papurau Bro yn dipyn o sefydliad yng Nghymru. Yn y bôn, cylchlythyrau Cymraeg lleol ydynt a gynhyrchir gan dimau golygyddol yn y gwahanol gymunedau, sydd wedi tyfu'n gylchgronau bach. Fe'u cyhoeddir yn fisol fel arfer ac maent yn llawn newyddion lleol a

hysbysiadau am ddigwyddiadau sy'n berthnasol i'r gymuned honno.

Mae rhestr lawn o Bapurau Bro cyfredol, â dolenni gwe lle maent ar gael ar Wikipedia www.cy.wikipedia.org/wiki/Rhestr_Papurau_Bro

Cyhoeddiadau leuenctid

Mae Urdd Gobaith Cymru hefyd yn cyhoeddi cylchgronau misol i blant: 'Cip' ar gyfer plant cynradd Cymraeg iaith gyntaf; 'Bore Da' ar gyfer dysgwyr ysgolion cynradd; ac 'IAW!' ar gyfer dysgwyr uwchradd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

<http://www.urdd.cymru/siop/cy/cylchgronau/>

Rhagor o wybodaeth am y cyfryngau Cymraeg

Mae gan Wikipedia dudalen yn rhestru pob un o'r cyfryngau Cymraeg, yn cynnwys cyfryngau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a'r rhai ag adrannau wythnosol neu fisol yn y Gymraeg. Dyma'r ddolen:

www.en.wikipedia.org/wiki/List_of_Welsh-language_media

Cyfathrebu Digidol a Chyfryngau Cymdeithasol

Ystyrir bod datblygu'r agwedd ddwyieithog are ein cyfathrebu yn y cyfryngau cymdeithasol a digidol yn rhan allweddol o'r gefnogaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu fel iaith fyw, gyfoes.

Mae'r Gymraeg yn adennill tir o ran datblygiadau technolegol. Drwy ddefnyddio'r iaith ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, mae wrthi'n datblygu geirfa fwy llac ac anffurfiol y mae ein pobl ifanc, yn arbennig, yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ei defnyddio o gymharu efallai â Chymraeg yr ystafell ddosbarth.

Yn yr un modd â gwledydd eraill, mae diwylliant o negeseuon testun wedi datblygu yn y Gymraeg ac mae llawer o bobl ifanc yn defnyddio'r iaith gryno hon wrth siarad â'i gilydd.

Mae'r Gymraeg hefyd yn gwneud argraff ar Twitter. Y Gymraeg yw'r drydedd iaith fwyaf poblogaidd yn y DU i bobl drydar ynddi. Yn yr un modd, mae Facebook yn cefnogi'r broses o feithrin diwylliant cyfryngau cymdeithasol a gweithgaredd hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg, lle y gellir dod o hyd i gymunedau o siaradwyr Cymraeg yn hawdd a'u targedu.

Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol dwyieithog:

Ceir nifer o offer a swyddogaethau safonol ar raglenni cyfrifiadurol a systemau gweithredu, yn ogystal ag apiau i helpu gyda gweithio yn y Gymraeg, a allai fod yn arbennig o ddefnyddiol o ran ymgymryd â gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol dwyieithog. Dyma ddolenni i rai ohonynt:

LiteratIM

Ar gyfer defnyddwyr Android, ceir ap LiteratIM a ddatblygwyd gan Brifysgol Bangor. Bysellfwrdd sy'n rhagfynegi testun yn seiliedig ar eiriadur dwyieithog yw hwn ac mae'n gweithio pan fyddwch yn anfon neges destun, e-bost neu pan fyddwch yn defnyddio'ch hoff apiau, gan awgrymu geiriau mewn chwinciad. Mae ar gael i'w lawrlwytho am ddim drwy GooglePlay. Dyma ddolen i fideo ynglŷn â LiteratIM a sut i'w osod ar eich dyfais symudol: www.youtube.com/watch?v=t2TInbbQ76Q

Newid iaith Facebook i'r Gymraeg

Dyma fideo ynglŷn â sut i newid eich iaith ragosodedig ar Facebook i'r Gymraeg: www.youtube.com/watch?v=SIXTJ7CUwXs

Sut i ddod o hyd i gymuned Gymraeg ar Twitter

Dyma fideo byr i'ch helpu i ddod o hyd i siaradwyr Cymraeg a chymuned Gymraeg ar Facebook: www.youtube.com/watch?v=UdeC7BscOeM

Ap geiriaduron Cymraeg-Saesneg, Saesneg-Cymraeg

Ap geiriaduron defnyddiol a ddatblygwyd gan Brifysgol Bangor. Dyma ffilm fer ynglŷn â sut i'w osod a'i ddefnyddio: <https://www.youtube.com/watch?v=nY1foY8Y348>

Adran 3: Trefniadau Mewnol a Gweinyddiaeth

- Gosodwch arwyddion dwyieithog yn y swyddfa / oriel / gweithdy. Gall cyfieithydd eich cynorthwyo i ddatblygu arwyddion dwyieithog, a beth am ystyried darparu rhestr o dermau allweddol a ddefnyddir gennych yn eich gwaith gyda sillafiadau ffonetig i helpu gydag ynganu a'i roi ar hysbysfwrdd y staff neu ryw Beth Tebyg. Gall fod yn dipyn o hwyl mynd i'r afael â'r iaith.
- Ystyriwch gyfieithu eich dogfennau staff mewnol, megis pecyn cynefino, cytundebau ac ati. Gellir gwneud hyn yn hawdd drwy ddefnyddio cyfieithydd neu wasanaeth cyfieithu da.
- Yn yr un modd, gallech ystyried cyhoeddi unrhyw hysbysiadu cyhoeddus a/neu hysbysebion swyddi yn ddwyieithog. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn ceisio denu siaradwyr Cymraeg i ymuno â'ch tîm. Mae'n hollol dderbyniol nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol / angenrheidiol ar gyfer swydd benodol (yn dibynnu ar y swydd a'ch anghenion chi fel sefydliad).
- Os oes gan eich busnes / sefydliad Bolisi Cymraeg ar hyn o bryd, gwerthuswch a yw'n cael ei weithredu'n effeithiol. Efallai ei bod yn hen bryd diweddarur polisi. Yn hen bryd adnewyddu'r polisi neu wneud rhywfaint o waith ynglŷn ag ymwybyddiaeth y tîm a'r modd y caiff y polisi ei weithredu?
- Os oes gennych yr adnoddau a'r ymrwymiad i gyfathrebu â'ch cynulleidfa yn eu dewis iaith, efallai y bydd angen i chi ailddylunio eich ffurflenni a'ch dulliau casglu data, e.e. swyddfa docynnau / aelodaeth / trafodion rhestr bostio? A yw eich cronfa ddata bresennol wedi'i chynllunio i gasglu, cofnodi a chwilio yn seiliedig ar anghenion iaith?
- Gall gosod meddalwedd gramadeg a sillafu Cymraeg ar gyfrifiaduron y sefydliad fod o gymorth mawr i siaradwyr ac ysgrifenyddwyr Cymraeg deimlo'n hyderus ynglŷn ag ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae'n gam mawr tuag at gynorthwyo siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad i gyfathrebu'n hyderus â'ch cynulleidfa / cwsmeriaid. Dyma ddolen i wefan Cysgliad am ragor o wybodaeth: <http://www.cysgliad.com/default.aspx?ln=cy>
- Newidiwch iaith eich Rhyngwyneb Windows i'r Gymraeg. Cliciwch yma am ganllawiau ar sut i wneud hyn ar Windows 7 ac uwch. www.windows.microsoft.com/en-gb/windows7/install-welsh-lip

Datblygu Polisi'r Gymraeg Syml ar Gyfer Eich Sefydliad

Nid oes angen i hon fod yn ddogfen hir a chymhleth. Yn wir, y mwyaf cryno ac ymarferol yw'r ddogfen, yr hawsaf y bydd hi i'w rhoi ar waith a'i lledaenu ar draws eich tîm. Defnyddiwch y canllawiau isod i'ch tywys drwy'r broses gam wrth gam.

1. Pam yr wyf fi / y mae'r sefydliad wedi ymrwmo i ddatblygu dwyieithrwydd yn ein holl weithgareddau. Dechreuwch gyda phwyntiau bwled:

2. Yr hyn yr wyf fi / yr ydym ni'n gobeithio ei gyflawni drwy ddatblygu ein dwyieithrwydd

3. Yr hyn yr ydym yn ymrwmo iddo, h.y. pa gamau gweithredu yr ydych yn mynd i'w cymryd er mwyn cefnogi a hybu dwyieithrwydd ar draws eich gweithgareddau (defnyddiwch restr pwyntiau bwled, ac os ydych yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol, defnyddiwch y penawdau yn y canllawiau 'Pobl', 'Cyfathrebu' a 'Trefniadau Mewnol a Gweinyddiaeth' i strwythuro eich ffordd o feddwl). Os ydych yn gelfyddyd perfformio, efallai y byddai'n werth darllen yr adran 'Creu Diwylliant Dwyieithog mewn Digwyddiadau a Pherfformiadau' isod ac ychwanegu rhywbeth am 'Berfformiad' yn yr adran hon hefyd.

4. Beth sy'n rhaid i chi / eich sefydliad ei roi ar waith o ran adnoddau, cyllideb, cefnogaeth ac ati i gynyddu dwyieithrwydd yn eich gweithgareddau?

5. Beth yw'r amserlen ar gyfer y newidiadau hyn? Ystyriwch newidiadau yn y tymor byr (0 - 6 mis), newidiadau yn y tymor canolig (6 - 18 mis) a newidiadau hirdymor (18 mis - 5 mlynedd).

6. Pa rwystrau y gallwch eu rhag-weld? Beth yw'r heriau mwyaf sy'n eich wynebu chi / eich sefydliad / y tîm o ran datblygu dwyieithrwydd?

7. Sut bydd eich cynulleidfaoedd / cwsmeriaid / partneriaid / cydweithwyr yn sylwi ar eich ymrwymiad pellach i ddwyieithrwydd?

Efallai y byddai'n werth dod â'ch tîm ynghyd i drin a thrafod y pwyntiau hyn cyn cytuno arnynt yn derfynol. Pan fyddwch yn fodlon, gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon wedyn i greu dogfen fer yn amlinellu ymrwymiad eich sefydliad i ddatblygu dwyieithrwydd a'r camau y mae wedi ymrwymo i'w cymryd i gyflawni hynny. Dogfen fewnol fydd hon, a allai hefyd fod yn ddefnyddiol fel dogfen atodol i geisiadau am grantiau, ac ar gyfer eich trafodaethau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Efallai y byddwch hefyd yn teimlo bod angen creu datganiad byrrach – dim mwy nag un neu ddau o baragraffau – i'w rannu'n fwy cyhoeddus.

Creu Diwylliant Dwyieithog mewn Digwyddiadau a Pherfformiadau

Fel sector gelfyddydol a diwylliannol, ni allwn barhau i gefnogi gwahanu ac ynysu'r celfyddydau a diwylliant yn ddibynnol ar iaith. Yn yr un modd ag y mae siaradwyr Cymraeg sy'n llythrennog yn ddiwylliannol yn ymgysylltu â chelfyddydau a diwylliant yn y ddwy iaith, mae angen i gwmnïau ac artistiaid / perfformwyr sy'n cyflwyno cynnyrch drwy gyfrwng y Gymraeg groesawu siaradwyr di-Gymraeg yn rhan o'u cynulleidfaoedd hefyd

Mae angen i ni symud yn raddol i sefyllfa lle mae cwmnïau ac artistiaid yn ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn rhugl. Mae rhan o'r gwaith hwnnw yn ymwneud â galluogi siaradwyr di-Gymraeg i ddeall rhywfaint o'r hyn sy'n digwydd mewn digwyddiadau a pherfformiadau Cymraeg. Mae hyn yn gynyddol bwysig yng Nghymru heddiw lle mae gan deuluoedd a grwpiau o ffrindiau yn aml alluoedd ieithyddol cymysg.

Mae hyn yn arwain at ddiwylliant ieithyddol diddorol iawn, ond mae hefyd yn creu heriau wrth gyflwyno'r celfyddydau - yn enwedig celfyddydau perfformio, gwyliau a'u tebyg. Mae angen i ni anelu at wneud ein celfyddydau Cymraeg yn fwy hygyrch i'r di-Gymraeg os ydym am ddenu'r cynulleidfaoedd mwyaf posibl, a hyd yn oed yn bwysicach fyth, os ydym am gau'r bwlch ieithyddol yn niwylliant ein cenedl, ac ysgogi dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o'r iaith ymhlith y di-Gymraeg.

Awgrymiadau ar gefnogi dwyieithrwydd mewn digwyddiadau / perfformiadau

- Sicrhewch fod rhaglenni'r digwyddiad / perfformiad yn ddwyieithog lle bo hynny'n bosibl, neu o leiaf yn cynnwys agweddau dwyieithog. Mae hyn yr un mor bwysig mewn digwyddiadau a gwyliau Cymraeg, lle y gall

crynodeb yn Saesneg o'r hyn sy'n digwydd yn y perfformiad neu ddigwyddiad fod o help sylweddol i wneud i'r di-Gymraeg deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu hystyried. Gall hyn fod mor syml â thaflen wedi'i hargraffu wedi'i phlygu y tu mewn i'r rhaglen Gymraeg, ac nid oes angen iddo gostio fawr ddim.

- Os bydd y gyllideb yn caniatáu, yng nghydestun gŵyl, ystyriwch drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyflwyniadau Cymraeg priodol, hŷd yn oed os darperir y gwasanaeth ar berfformiadau dethol yn unig yn ystod rhaglen yr wyl.
- Ystyriwch gynnwys elfennau dwyieithog yn eich cyhoeddiadau croesawu
- Mewn digwyddiadau oriel, ystyriwch roi labeli dwyieithog ar yr hyn a gaiff ei arddangos a chyfieithu unrhyw ddeunyddiau dehongli a/ neu gatalogau.
- Ar gyfer digwyddiadau mwy, ewch ati i recriwtio stiwardiaid a gwirfoddolwyr dwyieithog. Unwaith eto, dylai eich Menter Iaith leol wybod sut i'ch helpu dod o hyd i'r rhain yn eich ardal leol.
- Mae theatrau a chwmnïau sy'n gweithio'n ddwyieithog wedi bod wrthi'n datblygu nifer o ffyrdd arloesol a chynnil o ddarparu cyfieithiadau o'u gwaith. Un o'r systemau mwyaf arloesol sydd ar gael ar hyn o bryd yw 'Sibrwd', sef llais bach sy'n sibrwd yn eich iaith chi yn ystod perfformiad theatr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan: <http://sibrwd.com/?lang=cy>

Yr Archwiliad Olaf

Rydym yn awgrymu eich bod yn cynnal ail archwiliad o gymwysterau dwyieithrwydd eich sefydliad rhwng 6 mis a blwyddyn ar ôl rhoi mesurau ar waith i wella darpariaeth ddwyieithog ar draws y sefydliad ac ar draws gweithgaredd y sefydliad. Gallwch gynnal yr archwiliad hwn dro ar ôl tro er mwyn cadw llygad ar ei ddatblygiad dros amser os dymunwch.

Adran 1 - Pobl

1. Pa ganran o'ch gweithlu / tîm / staff sy'n gallu siarad Cymraeg?

	0% <input type="checkbox"/>	1-15% <input type="checkbox"/>	16-30% <input type="checkbox"/>	31-50% <input type="checkbox"/>	51-75% <input type="checkbox"/>	76-100% <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3	4	5

2. Pa lefel o allu yn y Gymraeg sy'n bodoli o fewn y sefydliad?

(Efallai y byddai'n werth gofyn i aelodau eich tîm beth yn eu tyb hwy yw lefel eu rhuglder a'u gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg.)

- Neb Sgôr 0
- Un neu fwy o ddysgwyr Sgôr 1
- Un neu fwy o siaradwyr Cymraeg hyderus, rhugl Sgôr 2
- Un neu fwy sy'n gallu ysgrifennu yn y Gymraeg i safon sylfaenol Sgôr 3
- Un neu fwy sy'n gymwys i ysgrifennu yn y Gymraeg Sgôr 4

3. O'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn hyderus, a yw'n amlwg i'r cyhoedd / gynulleidfa eu bod yn gallu cyfathrebu â hwy yn y naill iaith neu'r llall?

- Wyneb yn wyneb Sgôr 1
- Drwy e-bost / llythyr Sgôr 1
- Dros y ffôn (e.e. wedi'i hyrwyddo ar eich gwefan?) Sgôr 1

4. Beth yw canran y Siaradwyr Cymraeg ar eich bwrdd (os yn berthnasol)?

	0% <input type="checkbox"/>	1-15% <input type="checkbox"/>	16-30% <input type="checkbox"/>	31-50% <input type="checkbox"/>	51-75% <input type="checkbox"/>	76-100% <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3	4	5

Cyfanswm sgôr Adran 1 _____ (allan o gyfanswm posibl o 17)

Adran 2 - Cyfathrebu

5. A ydych yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog?

Sgôr Nac ydw Ydw
 0 1

6. A yw'r neges ar eich peiriant ateb yn ddwyieithog?

Sgôr Nac ydy Ydy
 0 1

7. Os yw aelod o'r cyhoedd / gynulleidfa yn dymuno cyfathrebu â chi / â'ch sefydliad drwy gyfrwng y Gymraeg, a ydych yn gallu hwyluso hynny?

Sgôr Nac ydw/Nac ydym Ydw/Ydym
 0 1

8. A ydych yn hyrwyddo'r ffaith eich bod yn hapus i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Sgôr Nac ydym Ydym
 0 1

9. A allwch chi gynnal cyfarfodydd / gweithdai / digwyddiadau (e.e. agoriad arddangosfa) yn ddwyieithog, naill ai drwy bresenoldeb aelod fîm dwyieithog neu weithiwr allanol neu drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu?

Sgôr Gallwn Ni allwn
 0 1

10. A ydych yn hysbysebu / hyrwyddo eich digwyddiadau'n ddwyieithog?

Sgôr Byth Yn achlysurol Y rhan fwyaf o'r amser Bob amser
 0 1 2 3

11. Faint o ddeunydd / gwaith print a gyhoeddir gan eich sefydliad sy'n gwbl ddwyieithog?

	Dim <input type="checkbox"/>	Ychydig <input type="checkbox"/>	Y rhan fwyaf <input type="checkbox"/>	Y cyfan <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3

12. A yw eich gwefan

	Yn uniaith Saesneg <input type="checkbox"/>	Yn cynnwys rhywfaint o Gymraeg <input type="checkbox"/>	Yn gwbl ddwyieithog <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2

13. Faint o ddeunydd cyfryngau cymdeithasol eich sefydliad sy'n ddwyieithog?

	Dim <input type="checkbox"/>	Ychydig <input type="checkbox"/>	Y rhan fwyaf <input type="checkbox"/>	Y cyfan <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3

14. A ydych yn cyfarch ymwelwyr i'ch adeilad / perfformiadau yn ddwyieithog?

	Nac ydym <input type="checkbox"/>	Ydym <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1

15. A yw eich llofnodion e-bost yn ddwyieithog?

	Dim <input type="checkbox"/>	Ychydig <input type="checkbox"/>	Y rhan fwyaf <input type="checkbox"/>	Y cyfan <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3

Cyfanswm sgôr Adran 2: _____ (allan o gyfanswm posibl o 20)

Gweinyddiaeth Fewnol

16. Faint o ddogfennau mewnol eich sefydliad, e.e. polisiâu staff, cytundebau ac ati sy'n ddwyieithog?

	Dim <input type="checkbox"/>	Ychydig <input type="checkbox"/>	Y rhan fwyaf <input type="checkbox"/>	Y cyfan <input type="checkbox"/>
Sgôr	0	1	2	3

Cymerwch ychydig funudau i ysgrifennu un neu ddau o nodiadau i'ch helpu i werthuso eich darpariaeth ieithyddol bresennol chi / darpariaeth ieithyddol bresennol eich sefydliad:

A. Beth ydym yn ei wneud yn dda ar hyn o bryd o ran dwyieithrwydd?

B. Ble y gellir gwneud y gwelliannau mwyaf?

Mae datblygu diwylliant dwyieithog o fewn sefydliad a'i weithgareddau yn broses barhaus sy'n esblygu. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i chi â'r gwaith.

Dolenni i Adnoddau ac Asiantaethau Cymorth

Gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau a dogfennau sy'n ymwneud â dwyieithrwydd yn y celfyddydau yng Nghymru. Ewch i'r wefan i gael rhagor o fanylion: <http://www.celfcymru.org.uk/about-us/governance/corporate-policies/iaith-gymraeg?diablo.lang=cym>

Comisiynydd Y Gymraeg

Mae rôl a swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys:

- hybu defnyddio'r Gymraeg
- hwyluso defnyddio'r Gymraeg
- gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau'n ymwneud â'r Gymraeg
- cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
- ymchwilio i ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae gwefan y Comisiynydd yn llawn adnoddau cynhwysfawr a defnyddiol, a chrybwyllwyd rhai ohonynt eisoes yn yr adrannau uchod. <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx>

Mae microwefan a ddatblygwyd i helpu busnesau ddatblygu a rhoi polisi dwyieithog cyflawn ar waith ar gael hefyd. Os hoffech fwrw golwg arni, ewch i: www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/manteision.aspx

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff proffesiynol cenedlaethol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg.

Ei nod yw sicrhau safonau proffesiynol ym maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg, a sicrhau hefyd bod y diwydiant cyfieithu'n datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth broffesiynol: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd. Rhaid llwyddo yn arholiadau'r Gymdeithas er mwyn cael aelodaeth ohoni.

Mae gwefan y Gymdeithas yn cynnwys cronfa ddata o gyfieithwyr cydnabyddedig sydd ar gael i wneud gwaith masnachol. Mae'n lle da i ddechrau chwilio am gyfieithydd neu asiantaeth neu wasanaeth cyfieithu y gallwch ddatblygu perthynas â hwy. www.cyfieithwycymru.org.uk

Mentrau iaith

Mae Mentrau Iaith wedi'u sefydlu er mwyn cefnogi cymunedau Cymru ac maent yn cynnig cyngor a chymorth i unigolion, mudiadau a busnesau, ac yn cynnal gweithgareddau i godi proffil yr iaith.

Ceir rhestr gyflawn o Fentrau Iaith, yn cynnwys y rhai sy'n weithredol yn eich ardal chi ar <http://www.mentrauiaith.cymru/>

Cymraeg.gov.wales

Gwefan newydd i gefnogi a hybu'r defnydd o'r
Gymraeg, yn cynnwys llawer o newyddion ac
adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol
<http://cymraeg.gov.wales/?lang=cy>

S4C– Dal ati

Gwasanaeth arbennig gan S4C i ddysgwyr ar
lefel canolradd i uwch. Yn llawn gwybodaeth,
geirfa, clipiau a mwy i roi hyder a mwynhad i
ddysgwyr.
www.s4c.cymru/cy/adloniant/dal-ati/